Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Allt y Mynydd**

**Cartref Nyrsio Allt y Mynydd**
**Llanybydder**
**SA40 9RF**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

05/06/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Allt y Mynydd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Ashberry Healthcare Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 44 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 6 Rhagfyr 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru neu'n gweithio tuag at fod yn wasanaeth dwyieithog. |

## Crynodeb


Mae Allt y Mynydd yn darparu amgylchedd diogel a magwrus ac mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan staff profiadol a hyfforddedig. Mae'r bobl a'u teuluoedd yn fodlon ar lefel y gofal y maent yn ei gael. Mae safbwyntiau unigol yn bwysig a chaiff y bobl eu hannog i gael cymaint o reolaeth â phosibl dros eu bywydau o ddydd i ddydd.

Caiff y staff eu recriwtio'n ddiogel a chânt gymorth a hyfforddiant i ymgymryd â'u rôl. Dywed y staff fod y rheolwr yn rhagweithiol ac yn hawdd mynd ato. Mae'r rheolwr a'r darparwr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda a chaiff archwiliadau eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac ysgogi gwelliannau. Caiff yr adeilad a'r cyfarpar eu cynnal a'u cadw er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref ac yn ymweld ag ef. Mae gwaith i ddiweddaru'r décor mewnol yn mynd rhagddo ac mae heulfan newydd wedi cael ei gwblhau yn ddiweddar.

## Llesiant

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus yn byw yn Allt-y-Mynydd a dywedodd un person "*It's wonderful, better than anywhere else I've been*", gan ei gymharu â lleoliadau eraill y mae wedi byw ynddynt. Dywedodd un perthynas wrthym, "*They are absolutely brilliant and caring"*.

Ymgynghorir â'r bobl a chaiff eu lleisiau eu clywed.  Mae hysbysfwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' yn cofnodi cynnydd ceisiadau'r bobl a pha gamau sydd wedi'u cymryd. Mae'r asesiadau cychwynnol a'r adolygiadau parhaus yn cynnwys y bobl a'u cynrychiolwyr lle y bo'n briodol. Dywedodd perthnasau wrthym eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i anghenion gofal a chymorth. Gwelsom fod y bobl yn cael cynnig dewis o brydau i ginio a bod y cogydd yn ymwybodol o ddewisiadau ac anghenion maethol penodol y bobl.

Gwelsom ddetholiad o ystafelloedd gwely'r bobl a oedd yn cynnwys eitemau personol o'u dewis. Mae rhai o'r bobl yn dewis treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn eu hystafell ac mae ganddynt eu teledu eu hunain i wylio rhaglenni o'u dewis. Mae gan un person gyfrifiadur wedi'i osod i'w ddefnyddio yn ei ystafell.

Mae'r staff yn dangos parch ac empathi tuag at y bobl a dywedodd un person, "*I can't fault the staff, they never make me feel like I'm useless".* Gwelsom ryngweithio cadarnhaol a gofalgar rhwng y staff gofal a'r rhai y maent yn eu cefnogi. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael help pan fydd ei angen arnynt ac nad ydynt yn gorfod aros yn hir pan fyddant yn galw am gymorth. Roedd y rhai nad ydynt yn gallu cyfathrebu ar lafar yn ymddangos yn gyfforddus yng nghwmni'r staff gofal. Nid oedd rhai rhannau o'r ddogfennaeth yn y cofnodion gofal personol yn cynnwys cofnodion llawn ac nid oedd yn glir a oedd y cynlluniau personol yn cael eu dilyn yn gywir ar gyfer rhai unigolion. Er nad yw hyn yn effeithio ar y bobl ar hyn o bryd, mae'n faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i fynd i'r afael â'r materion hyn. Byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn ystod yr arolygiad nesaf.

Mae systemau ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel a'u hamddiffyn rhag niwed. Caiff staff eu recriwtio'n ddiogel a chânt hyfforddiant ar amddiffyn oedolion. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn hyderus yr ymdrinnir yn briodol ag unrhyw bryderon a godir gyda'r uwch-aelodau o'r staff. Mae'r adeilad yn ddiogel a chaiff manylion adnabod unrhyw ymwelwyr eu gwirio gan y staff cyn iddynt gael mynediad. Cynhelir gwiriadau ac archwiliadau o'r adeilad a'r cyfarpar er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac nad oes unrhyw beryglon. Mae gan yr unigolion Gynllun Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad Mewn Argyfwng (PEEP) er mwyn hyrwyddo eu diogelwch mewn argyfwng.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth pan fydd ei angen arnynt gan staff cymwys a phrofiadol. Mae'r cynlluniau personol unigol yn nodi'r cymorth sydd ei angen ac mae'r cofnodion dyddiol yn dangos bod y cymorth wedi'i roi. At ei gilydd, mae'r rhain yn nodi'r gofal a roddwyd ond nid ydynt y nodi sut mae'r bobl wedi treulio eu diwrnod. Rydym wedi trafod hyn â'r rheolwr, sydd wrthi'n mynd i'r afael â hyn. Gwelsom hefyd fylchau yn y ddogfennaeth yn y cofnodion gofal personol o ran y gofal a roddwyd. Nid oedd yn glir a oedd y cynlluniau personol yn cael eu dilyn yn gywir ar gyfer rhai o'r unigolion. Er nad yw hyn yn effeithio ar y bobl ar hyn o bryd, mae'n faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i fynd i'r afael â'r materion hyn. Byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn ystod yr arolygiad nesaf.

Ymgynghorir â'r bobl a'u cynrychiolwyr wrth adolygu'r cynlluniau personol. Caiff hyn ei gwblhau'n fisol ac mae'n adlewyrchu unrhyw newidiadau i anghenion gofal a chymorth. Mae'r staff nyrsio cymwysedig yn monitro arwyddion hanfodol y bobl ac yn eu cofnodi'n rheolaidd;  tymheredd eu corff, eu cyfradd pwls, eu pwysedd gwaed a'u cyfradd anadlu, oherwydd gall newidiadau fod yn arwydd o broblem iechyd y gall fod angen sylw meddygol arno. Caiff atgyfeiriadau amserol eu gwneud at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol pan fo angen er mwyn gwella iechyd corfforol ac iechyd meddwl y bobl i'r eithaf. Cyfeiriodd un person at broblem iechyd diweddar gan ddweud “*They (staff) are on the ball*”.

Mae'r rheolwr wedi datblygu cysylltiadau agos â'r feddygfa leol a chynhelir cyfarfodydd wythnosol gyda'r uwch-ymarferydd nyrsio. Trafodir unrhyw bryderon iechyd unigol a threfnir apwyntiadau er mwyn i'r bobl gael eu hasesu ymhellach os oes angen. Mae hyn yn sicrhau yr eir i'r afael â phroblemau iechyd mewn modd amserol ac y caiff iechyd a llesiant y bobl eu hybu i'r eithaf. Mae system gadarn ar waith ar gyfer storio a rhoi meddyginiaeth yn ddiogel. Caiff cofnodion rhoi meddyginiaeth eu cadw ar system ar-lein. Mae polisi meddyginiaeth gyfredol ar waith ac mae'r uwch-aelodau o'r staff wedi cael hyfforddiant ar roi meddyginiaeth. Caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel.

Mae'r gwasanaeth yn darparu'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae rhai aelodau o'r staff yn siarad Cymraeg ac mae'r rhai nad ydynt yn rhugl wedi dysgu geiriau ac ymadroddion syml. Clywsom sgyrsiau rhwng aelodau o'r staff ac unigolion yn Gymraeg. Mae dogfennau ar gael yn Gymraeg ar gais a gall y bobl wrando ar radio Cymru a gwylio rhaglenni teledu Cymraeg.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn cael budd o fyw mewn amgylchedd glân, cartrefol a diogel sy'n cefnogi anghenion y bobl. Oherwydd oedran yr adeilad, mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw parhaus. Mae rhaglen dreigl ar waith i ddiweddaru'r décor ac mae sawl ardal wedi cael ei hailaddurno ers yr arolygiad blaenorol. Mae trefniadau wedi'u gwneud i osod lloriau newydd yn y coridorau yn yr wythnosau nesaf. Mae'r adeilad yn cael ei gynnal yn dda ac mae'r gwaith i adeiladu heulfan a phrif fynedfa newydd yn agosáu at gael ei gwblhau. Bydd hyn yn darparu ardal gymunedol ychwanegol i'r bobl dreulio eu hamser, ac mae perthnasau wedi dweud wrthym eu bod yn edrych ymlaen at ddefnyddio'r ardal hon i ymlacio a sgwrsio â'u hanwyliaid. Mae cynlluniau hefyd ar waith i wella'r ardal awyr agored er mwyn ei gwneud yn fwy hygyrch i'r bobl sy'n byw yn Allt-y-Mnydd.

Mae maint yr ystafelloedd gwely yn amrywio, ond mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fawr. Mae eitemau personol wedi'u harddangos yn ystafelloedd y bobl a chânt eu hannog i addurno eu hystafell yn unol â'u chwaeth a'u dewis eu hunain. Mae rhai o'r ystafelloedd ymolchi cymunedol wedi cael eu hadnewyddu'n ddiweddar ac mae cynlluniau ar waith i adnewyddu'r gweddill.

Mae safonau hylendid y cartref yn dda a gwelsom fod digon o gyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael i'r staff. Caiff sylweddau sy'n beryglus i iechyd eu storio'n ddiogel a dim ond personél awdurdodedig sy'n gallu mynd i ardaloedd cyfyngedig. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi dyfarnu sgôr o 4 i'r gegin, sy'n dangos bod y safonau hylendid bwyd yn dda.

Yn ystod yr arolygiad, roedd swyddog Iechyd a Diogelwch yn bresennol yn cwblhau archwiliad a gwiriad o'r lleoliad. Mae'r darparwr yn cyflogi ymgynghorydd allanol at y diben hwn. Caiff cynllun gweithredu ei lunio yn nodi unrhyw welliannau sydd eu hangen i wella diogelwch a llesiant y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn Allt-y-Mynydd neu'n ymweld ag ef, i'r eithaf.

Mae'r gwasanaeth tân yn cynnal gwiriadau rheolaidd ac mae polisi ac asesiad risg tân ar waith. Caiff y cyfarpar diffodd tân, y larymau tân a'r systemau goleuadau argyfwng eu cynnal a'u cadw a'u gwasanaethu'n rheolaidd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Mae gan y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth Gynllun Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng er mwyn hyrwyddo eu diogelwch mewn argyfwng.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r gwasanaeth yn cael ei arwain a'i reoli'n gadarn. Mae'r rheolwr presennol wedi bod yn ei swydd ers mis Hydref 2023, ar ôl rheoli'r chwaer-gartref yn flaenorol. Mae'r rheolwr wedi gwneud rhai newidiadau, ac er gwaethaf cyfnod o ansefydlogrwydd i ddechrau, dywedodd y staff wrthym,*"the changes have been for the better*". Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwr, a'u bod yn gallu mynd ato os oes ganddynt unrhyw broblemau. Dywedodd un aelod o'r staff, "*X (manager) is very helpful and has resolved things. If there is a problem X will always make time for you"*.

Nid oes Unigolyn Cyfrifol mewn swydd ar hyn o bryd, ond mae'r rheolwr cydymffurfiaeth wrthi'n gwneud cais am y swydd. Mae'r rheolwr yn hyderus y bydd hyn yn newid cadarnhaol hefyd, gan ei fod eisoes yn deall rôl yr Unigolyn Cyfrifol drwy ei rôl fel rheolwr cydymffurfiaeth. Mae'r rheolwr cydymffurfiaeth wedi bod yn cynnal ymweliadau cymorth y darparwr yn absenoldeb yr Unigolyn Cyfrifol ac, felly, mae'n parhau i oruchwylio'r gofal a'r cymorth a ddarperir yn drylwyr iawn. Yn ystod yr ymweliadau, mae meysydd fel diogelwch amgylcheddol, dogfennaeth gofal y bobl a'r trefniadau staffio wedi cael eu dadansoddi er mwyn ysgogi gwelliannau a'r canlyniadau gorau posibl i'r bobl.

Caiff y staff eu recriwtio'n ddiogel ac mae'r ffeiliau personél yr edrychwyd arnynt yn dangos bod y gwiriadau diogelwch a fetio angenrheidiol wedi'u cwblhau cyn iddynt ddechrau eu cyflogaeth. Mae'r gwiriadau hyn yn cynnwys geirdaon gan gyflogwyr blaenorol, hanes cyflogaeth a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Ar ddechrau eu cyflogaeth, mae gweithwyr gofal newydd yn cwblhau cyfnod sefydlu strwythuredig ac yn ymgymryd â shifftiau cysgodi gydag aelodau mwy profiadol o'r staff. Darperir hyfforddiant gorfodol ac mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant gloywi parhaus. Darperir hyfforddiant ychwanegol hefyd yn unol ag anghenion unigol penodol fel Dementia. Mae'r staff gofal hefyd yn cael y cyfle i ddatblygu drwy gwblhau hyfforddiant Ymarferydd Cynorthwyol Cartref Gofal (CHAP) sy'n eu galluogi i ymgymryd â mwy o gyfrifoldebau a dyletswyddau. Cynhelir sesiynau goruchwylio chwarterol gyda phob aelod o'r staff, gan roi'r cyfle i nodi cryfderau, anghenion hyfforddiant a meysydd i'w datblygu ymhellach. Dywedodd un aelod o'r staff, "*It's nice to have positive feedback".*

Gwnaethom edrych ar sampl o bolisïau allweddol a gwelsom eu bod yn gyfredol, sy'n sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael i'r staff a'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 21 | Yn ystod yr arolygiad ar 4 Mehefin, gwelsom nad oedd tri unigolyn yn cael eu hail-leoli ac nad oedd eu croen yn cael ei archwilio bob tair awr fel sy'n ofynnol ac fel y nodir ar eu ffurflen monitro croen. | Newydd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/07/2024